

Ysgolion yr 21ain Ganrif

Ar 24 Mehefin cymeradwyodd Cabinet y Cyngor gynnig i sefydlu ysgol gynradd dau ddsbarth mynediad, dwy ffrwd, gyda darpariaeth feithrin i wasanaethu camau cynnar datblygiad Plasdŵr yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion.

Bydd yr ysgol yn cynnwys dwy ffrwd iaith wedi eu trefnu fel un dosbarth mynediad Cymraeg (30 lle fesul grŵp blwyddyn) ac un dosbarth mynediad Saesneg yn bennaf, gyda defnydd sylweddol o'r Gymraeg (30 lle fesul grŵp blwyddyn) gan ddarparu cyfanswm o 420 lle i ddisgyblion cynradd yn yr ysgol. Bydd y feithrinfa'n cynnig 48 o leoedd meithrinfa rhan-amser ar gyfer y ffrwd Gymraeg a 48 o leoedd meithrinfa rhan-amser ar gyfer y ffrwd Saesneg.

Ystyriodd y Cabinet y cynnig, y gwrthwynebiadau statudol a gyflwynwyd ac ymateb yr awdurdod lleol iddynt.

Nodwyd y cafwyd tri gwrthwynebiad statudol. Ceir crynodeb o'r pryderon a godwyd yn yr adroddiad gwrthwynebu, ynghyd â'r ymateb gan yr awdurdod lleol. Ystyriwyd bod yr ymateb a roddwyd gan yr awdurdod lleol yn ateb y materion a godwyd.

Mae'r adroddiad gwrthwynebu ar gael i'w weld ar wefan y Cyngor:

<https://cardiff.moderngov.co.uk/ieListDocuments.aspx?CId=151&MId=4197&Ver=4>

Roedd y Cabinet yn fodlon y byddai'r cynnig yn:

- ymateb i'r galw amcanestynedig am leoedd Cymraeg a Saesneg cynradd ychwanegol i wasanaethu'r datblygiadau tai newydd yn ardaloedd Creigiau / Sain Ffagan, Radur / Pentre-poeth a'r Tyllgoed.
- cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg
- cyfrannu at ac yn cefnogi strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru trwy gynyddu nifer y plant sy'n derbyn addysg Gymraeg yn gynaliadwy a rhoi budd i'r rhai sy'n dysgu Cymraeg mewn addysg Saesneg ei chyfrwng
- arwain at lai o deuluoedd yn yr ardal angen teithio i rywle arall i gael addysg trwy gyfrwng eu dewis o iaith.

Nodwyd y bydd y gwaith adeiladu ar ddatblygiad Plasdŵr yn cael ei ohirio o ganlyniad i gyfnod cloi Covid-19 ac mae trafodaethau ar y gweill gyda'r datblygwr o ran eu hamserlen ddiwygiedig.

Atgyfeirio Penderfyniad yr Awdurdod Lleol at Weinidogion Cymru

Dan adran 54 Deddf 2013 os yw'r cynigion wedi'u cymeradwyo gan awdurdod lleol, caiff y cyrff canlynol, o fewn 28 diwrnod, atgyfeirio'r cynnig at Weinidogion Cymru i'w ystyried;

- i. Awdurdod lleol arall y mae'r cynigion yn effeithio arno;*
- ii. Y corff crefyddol priodol;*
- iii. Corff Llywodraethu ysgol sefydledig neu wirfoddol;*
- iv. Ymddiriedolaeth sy'n dal eiddo ar ran ysgol wirfoddol neu sefydledig;*
- v. Sefydliad addysg bellach y mae'r cynigion yn effeithio arno.*

Mae'r penderfyniad yn amodol ar y gweithdrefnau galw i mewn fel y nodir yng nghyfansoddiad y Cyngor sy'n galluogi adolygu penderfyniadau'r Cabinet. Os oes galw i mewn ar gyfer y penderfyniad, rhoddir gwybod i'r holl randdeiliaid.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am hyn neu os hoffech ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r Tîm Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion ar 029 2087 2917 neu e-bostiwrch: ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk